

**MESURAU DIOGELWCH
RHAG TÂN**
AR GYFER ADEILADWEITHIAU
PABELLOG LLED-BARHAOL
SY'N DARPARU LLETY CYSGU



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

mawwfire.gov.uk

DARPERIR Y CYNGOR CANLYNOL AR GYFER CYNLLUN(IAU) A GOFODAU SAFLEOEDD LLE MAE 'PEBYLL SAFFARI' - 'IWRTIAU' - 'GEOGROMENNI' - 'ARCHBEBYLL' AC ADEILADWEITHIAU TEBYG YN CAEL EU DEFNYDDIO FEL LLETY CYSGU LLED-BARHAOL



Mae hefyd yn cynnwys trefniadau a chanllawiau diogelwch rhag tân ychwanegol ar gyfer safleoedd sydd wedi'u trwyddedu. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys y mathau hyn o unedau llety mewn gwyliau ac ati, sy'n cael eu lleoli oddi wrth safle'r wyl/digwyddiad ei hun, a byddant yn sicrhau man cychwyn ar gyfer unrhyw ystyriaethau o ran asesu risgiau tân.

Nod yr wybodaeth hon yw symleiddio a safoni'r gofynion o ran gofodau a chynlluniau ar gyfer safleoedd newydd a darpar safleoedd newydd mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd. Mae hefyd yn egluro'r darpariaethau sydd ar gael y tu mewn i'r adeiladweithiau pabellog i leihau risgiau o dân, ac yn rhoi cyngor ar hyd a lled y gallu i synhwyro tân a rhybuddio rhag tân, a hynny oherwydd prinder yr wybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus lle nad oes meini prawf penodol wedi cael eu pennu.

Gan nad oes yna safonau cydnabyddedig ar gael ar hyn o bryd, dylai busnesau fabwysiadu egwyddorion y Safonau Enghreifftiol ar gyfer Carafannau o ran y gofodau ar eu safle a chynlluniau'r unedau hyn. Mae'n ddoeth cymhwyso gofynion y Safonau Enghreifftiol at bennu gofodau gan mai'r rhain yw'r norm sefydledig agosaf ar gyfer y diwydiant hwn - yn amodol ar y meini prawf ychwanegol dilynol.

DWYSEDD A GOFODAU RHWNG UNEDAU

Y gofod lleiaf rhwng unedau:

- Yn achos adeiladweithiau pabellog lled-barhaol a ddefnyddir fel llety cysgu - uned(au) a adeiladwyd gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u profi a'u hardystio mewn modd addas ac sy'n cydymffurfio â dosbarthiadau gwrthfflam priodol - ni ddylai'r pellter fod yn llai na **5 metr rhwng rhannau cyfanheddol** yr unedau.
- Yn achos yr unedau cysgu lled-barhaol hynny a adeiladwyd heb safon(au) gwrthfflam (neu le nad oes ardystiad ar gael), **ni ddylai'r pellter (ar unrhyw bwynt) rhwng yr unedau fod yn llai na 6 metr.**
- **Ni chaniateir** cynteddau, cysgodlenni, ac ati, sy'n rhai ychwanegol.

- Lle bo i ddyluniad yr uned 'fargod/allwthiad' ar lefel y to, **ni ddylai'r pellter rhwng unrhyw ran o fargod y to ac uned gyfagos fod yn llai na 3 metr** - a dylai hefyd fodloni'r gofynion o ran gwahaniad o 5 neu 6 metr rhwng yr ardaloedd cyfanheddol.
- Ni ddylid caniatáu i unrhyw gyfarpar ychwanegol, er enghraifft barbeciw, gael eu storio na'u defnyddio rhwng unedau, a dylent gael eu lleoli **3 metr (fan agosaf)** oddi wrth unrhyw ardal gyfanheddol.
- Dylid annog pobl i beidio â pharcio cerbydau preifat yn ymyl unedau. Fodd bynnag, lle bo cerbyd(au) yn cael eu parcio, **rhaid cadw pellter gwahanu o 3 metr** rhwng unrhyw gerbyd a cherbyd

arall neu ardal gyfanheddol yr uned gyfagos. Ni ddylai cerbyd(au) rwystro mynedfeydd na mynediad o gwmpas yr unedau.

Dylai dwysedd yr unedau ar y safle fod yn gyson â'r Safonau Enghreifftiol, ac mae hynny'n cynnwys y gofynion o ran iechyd ac amwynderau. Ni ddylai'r dwysedd gros fod yn fwy na 60 uned i'r hectar, sy'n cael ei gyfrifo ar sail yr ardal y gellir ei defnyddio (h.y. heb gynnwys llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cymunedol ac ardaloedd eraill sy'n anaddas ar gyfer lleoli carafannau neu adeiladweithiau pabellog), yn hytrach na chyfanswm arwynebedd y safle.

TREFNIADAU DIOGELWCH RHAG TÂN



- Dylai larymau synhwyro mwg un pwynt, sy'n cael eu gweithredu gan fatri ac sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig berthnasol, ac sydd hefyd yn cynnwys golau addas sy'n goleuo yn ystod argyfwng o'u hactifadu, gael eu gosod yn llorweddol yn ardaloedd byw ac ystafelloedd gwely yr unedau. Dylent gael eu lleoli'n unol â manylebau'r gwneuthurwr, a dylid sicrhau bod lleihau a rheoli galwadau ffug yn cael ei ystyried.
- Dylid darparu larymau synhwyro mwg ychwanegol (gyda golau) lle bo 'codennau cysgu' ynghlwm wrth yr adeiladwaith pabellog ac yn ffurfio rhan ohono.
- Cyn i ymwelwyr newydd ddod i'r unedau, dylai person cyfrifol y safle weithredu trefn brofi i wirio lleoliad y synwryddion mwg a'u bod yn gweithio, a hynny bob tro.
- Dylid ystyried y defnydd o ffyn profi synwryddion mwg neu gyfarpar profi arall, a'u rhoi ar waith.
- Dylid asesu goleuadau brys y tu allan i'r unedau yn ôl gofynion penodol y safle, a dylid darparu tortshis lle bo angen goleuadau ychwanegol.

- Dylai cynllun argyfwng 'PENODOL' i'r safle unigol fod ar gael.
- Dylai hysbysiadau ynghylch gweithredu yn achos tân fod ar gael yn y pebyll, ynghyd â manylion am sut i alw'r gwasanaethau brys ac am leoliadau'r manau ymgynnull.



- Lle nad oes ond un allanfa – sef un cyfeiriad teithio – ni ddylai'r pellter teithio fod yn fwy na 6.5 m.
- Ni ddylai'r pellter teithio o unrhyw ran o adeiladwaith sydd â mwy nag un allanfa fod yn fwy nag 18 m – ar ôl y 6.5 m cyntaf, dylai gweddill y llwybr arwain mewn cyfeiriadau gwahanol i allanfeydd amgen.
- Dylid darparu Asesiad Risgiau Tân 'PENODOL' i'r safle a'r 'math' o uned(au).



- Dylid manylu ar weithdrefnau brys ar gyfer gwesteion anabl.



- Dylid darparu diffoddydd tân addas (risg briodol) a blanced dân yn ardal fyw pob uned.
- Dylai'r holl ddarpariaethau yn yr uned(au) fod yn destun profion rheolaidd.
- Dylai cofnodlyfr (cofnodion o brofion addas) gael ei lenwi a bod ar gael.
- Dylai'r holl ddeunyddiau pabell (yn rhai mewnol ac allanol) a ddarparwyd gydag ardystiad i ddangos y sgôr ymwrthedd i dân gael eu dogfennu yn yr asesiad(au) risgiau tân safle-benodol.
- Dylai'r holl ddillad gwely a dodrefn meddal gydymffurfio â'r Rheoliadau Dodrefn a Dodrefn Meddal, a dylent gael eu cyflenwi gan reolwyr y safle.
- O fewn 30 metr i unrhyw adeiladwaith pabellog, bydd yna fodd o seinio rhybudd o dân i ddefnyddwyr eraill ar y safle.
- Ni ddylid lleoli pebyll yn agos at goed/wrychoedd, a byddant yn cadw at bellter gwahanu o 3 metr.



- Dylai cyflenwad trydan fod ar gael ar gyfer pob uned, a dylid darparu goleuadau sylfaenol. Ni ddylid caniatáu i oleuadau fflam noeth gael eu defnyddio.



- Dylai'r holl gyfarpar trydanol a ddarperir (ar gyfer coginio a gwresogi, e.e. rheiddiadur olew sy'n rhedeg ar drydan) fod yn destun Prawf Dyfeisiau Cludadwy (PAT).



- Dylid gosod, cynnal a chadw llosgyddion coed a gwresogyddion yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Dylent gael

eu gosod gan beirianwyr cymwys a chofrestredig, a dylai synwryddion carbon monocsid gael eu gosod mewn modd addas. Dylid gosod giardiaid sy'n gymwys i'r pwrpas, a dylid rhoi cyfarwyddiadau diogelwch i ymwelwyr newydd pan fyddant yn cyrraedd.



- Caniateir defnyddio barbeciws; fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn ddiagon pell o'r adeiladweithiau pabellog ac nid yn y gofod rhwng yr unedau. Bydd unrhyw gyfleusterau barbeciw a ddarperir yn cael eu darparu'n unol â'r

gofynion o ran gofodau, a dylent gael eu monitro gan batrolau safle.

- Rhaid gosod barbeciws tafladwy ar arwyneb allanol, gwastad, nad yw'n llosgadwy. Rhaid cynnal y pellter gwahanu gofynnol o 3 metr oddi wrth ardal gyfanheddol yr uned gyfagos, a dylai hyn oll gael ei fonitro gan batrolau'r safle.



- Dylid sicrhau bod yr holl westeion, pan fyddant yn cyrraedd, yn cael gwybod am bwysigrwydd diffodd unrhyw fflamau noeth cyn iddynt fynd i'r gwely.

Dogfennau Cyfeiriol

- Cyngor Sicrwydd Awdurdod Sylfaenol gan Wasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf ar gyfer Bourne Leisure Limited
- Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960
- Deddf Safleoedd Carafannau 1968
- Safonau Enghreifftiol 2008 ar gyfer Safleoedd Carafannau yng Nghymru
- Raising the Bar – Caravan / Temporary Sleeping Accommodation 2014
- Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth Ei Mawrhydi – Sleeping Accommodation Guide
- Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth Ei Mawrhydi – Open Air Events
- Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth Ei Mawrhydi – Means of Escape for Disabled People
- Nodyn Briffio Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân – Fire Safety Enforcement on Feather Down Farm Days 2010

Cydnabyddiaethau

Lluniwyd gan Dave Powlesland MIFireE – Swyddog Awdurdod Sylfaenol a Diogelwch Busnes o Wasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf, ar gyfer Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) trwy Ian Whitby – cadeirydd Ffrwd Waith Grŵp Diogelwch Digwyddiadau yr NFCC.

Haven Holidays, sy'n enw 'brand' i Bourne Leisure Group Limited.

www.tancgc.gov.uk
www.mawwfire.gov.uk



**Ein Negeseuon
Diogelwch**
Our Safety
Messages

Diogelwch Tân Busnes
Business Fire Safety